Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.DLl346

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan – Ariannu

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn ystod cyfarfod 'Plismona yng Nghymru' ar 12 Medi, derbyniodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid ddiweddariad ar y manteision pendant i blismona yn dilyn eu buddsoddiad yng Nghydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan dros y 2 flynedd diwethaf (£5000 y flwyddyn fesul corfforaeth undyn). Cytunwyd i gefnogi ariannu Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan yn y dyfodol a fyddai'n galluogi'r rhaglen i barhau rhwng Plismona yng Nghymru a Rhwydwaith Arloesedd Cymru i gefnogi ymchwil plismona yng Nghymru. Mae'r cydweithrediad yn anelu i:

- Hwyluso ymgysylltu effeithiol rhwng heddluoedd Cymru a phrifysgolion yng Nghymru i gynnal ymchwil sy'n gwella bywydau pobl yng Nghymru.
- Meithrin partneriaethau teg ar gyfer cydweithio ar lefel 'Cymru gyfan' rhwng yr heddlu a'r sectorau academaidd.
- Galluogi partneriaethau 'Cymru Gyfan' i greu ceisiadau cydweithredol mwy, i gyrchu cyllid grant allanol ar lefel 'Cymru Gyfan'.
- Gweithio mewn partneriaeth i greu effaith ymchwil, bod o fudd i bolisïau'r heddlu ac i rannu arfer gorau ledled Cymru.
- Codi ymwybyddiaeth o'r ymchwil plismona cydweithredol sy'n cael ei gynnal ledled Cymru.

O ystyried llwyddiant y cyfnod strategaeth cyntaf, cynigir cynnal y cyfnod strategaeth nesaf o 1 Medi 2024 – 31 Gorffennaf 2028 gydag ymrwymiadau ariannol o 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2028. Byddai cyfnod strategaeth hirach yn caniatáu i Gydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan adeiladu ar y momentwm a'r canlyniadau o'r ddwy flynedd gychwynnol a chyflymu ei waith i hwyluso ymgysylltu effeithiol rhwng heddluoedd Cymru a phrifysgolion yng Nghymru i gynnal ymchwil ystyrlon sy'n gwella bywydau pobl yng Nghymru a'i gynnwys mewn arferion.

Cynigir bod gweithgarwch a ariennir yn y cyfnod strategaeth nesaf yn cefnogi gyda 'ffydd a hyder cyhoeddus cynyddol mewn plismona'. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer gweithgareddau i geisio heriau allweddol a meysydd blaenoriaeth gwahanol o fewn plismona gan weithio tuag at y ffocws cyffredinol o gynyddu hyder a ffydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Cytunwyd yn y cyfarfod Plismona yng Nghymru y byddent yn ariannu wyth prosiect arall i gyd, pob un ohonynt am 2 flynedd. Byddai 4 prosiect yn cychwyn ym mlwyddyn 1, a'r 4 sy'n weddill ym mlwyddyn 2. Amlinellir y manylion isod:

| **Dewis Ariannu 1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan 2024-2028 | | | | |
| Penawdau gweithgarwch | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Cyfanswm/ 3 blynedd |
| | 01/04/2025 - 31/03/2026 | 01/04/2026 - 31/03/2027 | 01/04/2027 - 31/03/2028 | |
| Arian ar gyfer prosiectau ymchwil | 4 0,000 | 80,000 | 40,000 | 160,000 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid | 2,700 | 1,200 | 1,200 | 5,100 |
| Effaith a dysgu | 400 | 400 | 400 | 1,200 |
| Integreiddio data'r heddlu i fanc data SAIL | 400 | 400 | | |
| Aelod staff i gefnogi Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan (0.4 cyfwerth ag amser llawn) | 21,100 | 21,800 | 22,600 | |
| Cyfanswm | 64,600 | 103,800 | 64,200 | 232,600 |
| Cyfanswm fesul heddlu/blwyddyn | **8,075** | **12,975** | **8,025** | **29,075** |

**Argymhelliad:**
Cofnodi'r penderfyniad a diweddaru Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan bod Dewis 1 yn cael ei gefnogi.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 12 Medi 2024**